

Cwestiynau'r ymgynghoriad

Mae gan y Cynllun Gweithredu chwe phrif thema: Hawliau Dynol a Chydnabyddiaeth; Diogelwch; Cartrefi a Chymunedau; Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Addysg; a'r Gweithle. Hoffem gael eich barn ar y camau gweithredu arfaethedig ar gyfer pob thema. Efallai yr hoffech roi sylwadau ar un o'r meysydd hyn neu bob un ohonynt.

Defnyddiwch y cwestiynau canlynol fel sail i'ch ymateb. Mae croeso i chi ychwanegu sylwadau neu wybodaeth ychwanegol os dymunwch.

Cwestiwn 1

A ydych chi'n meddwl y bydd y Cynllun Gweithredu yn gwella cydraddoldeb i bobl LHDTTC+ a beth ddylai'r blaenoriaethau fod yn eich barn chi?

Er yr ymddengys y bydd y Cynllun Gweithredu yn gwella cydraddoldeb i bobl LHDTTC+, mae nifer o fudiadau'r sector gwirfoddol wedi lleisio'u pryderon i CGGC ynghylch yr amser y maen nhw'n ofni y bydd hyn yn ei gymryd. Gellid lleihau'r pryder hwn pe bai fersiwn derfynol y Cynllun yn cynnwys amserlenni penodol ar gyfer camau gweithredu. Roedd y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yn cynnwys y rhain, felly mae'n rhyfedd nad yw'r Cynllun LHDTTC+ yn gwneud hyn. Hefyd, ychydig iawn o wybodaeth sydd am sut bydd y canlyniadau hyn yn cael eu mesur. Os na fydd Llywodraeth Cymru yn mesur effaith y cynllun, mae'n anodd deall sut y gellid ei gyhoeddi yn llwyddiant neu fel arall. Y flaenoriaeth gyntaf ddylai fod i'r Cynllun gynnwys amserlenni a mesuriadau o lwyddiant.

Dylai'r Cynllun hefyd gydnabod fod aelodau'r gymuned LHDTTC+ i gyd yn wahanol. Mae'n rhaid i'r Cynllun gydnabod y gwahaniaethau rhwng pobl yn hytrach na cheisio mynd ati mewn modd sy'n 'addas i bawb'.

Cwestiwn 2

A ydych chi'n cytuno â'r nodau cyffredinol? Beth fydddech chi'n ei ychwanegu neu'n ei ddileu mewn perthynas â'r nodau cyffredinol?

Mae'r ffaith nad oes gan y Cynllun gysylltiad amlwg â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn esgeulustod enfawr. Gellir dim ond gwella'r nodau llesiant drwy gynyddu cydraddoldeb i bobl LHDTC+, yn benodol, 'Cymru sy'n fwy cyfartal', 'Cymru o gymunedau cydlynus' a 'Chymru iachach', ond nid oes yr un Nod na fyddai'n cael budd posibl pe bai'r Cynllun yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus. Er lles y Ddeddf, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ddechrau dangos yn glir sut mae ei phenderfyniadau yn rhoi siawns well i Gymru gyflawni'r Nodau.

Dylai'r Cynllun nodi'n eglur y bydd y Panel Arbenigol Annibynnol yn cynnwys aelodau o'r gymuned LHDTC+.

Dylai'r Cynllun gynnwys nod ynghylch mynd i'r afael â chamwybodaeth am bobl drawsrywedol o fewn y cyfryngau a chyfryngau cymdeithasol.

Nid yw 'gwella'r broses o gasglu data' yn ddigon penodol fel nod. Mae'n rhaid rhoi mwy o fanylion ar sut y bydd y data hwn yn cael ei gasglu ac at beth fydd yn cael ei ddefnyddio. Mae llawer o wybodaeth bersonol o fewn y gymuned LHDTC+ yn sensitif tu hwnt, a dylai pryderon diogelu fod yn hollbwysig.

Cwestiwn 3

A ydych yn cytuno â'r camau gweithredu sy'n cael eu cynnig? Beth fydddech chi'n ei ychwanegu neu'n ei ddileu mewn perthynas â'r camau gweithredu?

Ar Gam Gweithredu 12 – ar adeg pan mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi cynlluniau i 'ailwampio'r' Ddeddf Hawliau Dynol, mae'n bwysicach nag erioed fod pobl yn cael eu hatgoffa o'u hawliau dynol. Mae'r Cynllun Gweithredu LHDTC+ yn fan gwych i ddechrau, ond byddai'n ddefnyddiol gweld Llywodraeth Cymru yn gwneud mwy o waith ar bwysigrwydd hawliau dynol wrth fynd ymlaen.

Ar Gam Gweithredu 17 – nod y cam gweithredu yw ‘gwella ei dealltwriaeth o'r rhesymau dros y cyfraddau isel o roi gwybod am achosion’ o drais domestig yn y gymuned LHDTC+ yn y gorffennol. Er bod y mwyafrif o'r trais domestig yn bendant yn erbyn menywod, byddai'n ddefnyddiol gweld ychwanegiad i'r cam gweithredu hwn, neu gam gweithredu arall ar wahân, sy'n edrych ar drais domestig yn erbyn dynion yn y gymuned hefyd, er mwyn sicrhau eu bod nhw hefyd yn gallu derbyn y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Ar Gam Gweithredu 19 – mae angen eglurder ynghylch a yw'r cyllid y cyfeirir ato yma ar gyfer mudiadau ieuenctid LHDTC+ yn unig, neu fudiadau ieuenctid ehangach yn y sector gwirfoddol.

Ar Gam Gweithredu 13 ac 16 – Nid oes sôn am strategaethau ar gyfer amrywio a denu pobl o gefndiroedd amrywiol i wirfoddoli gyda'r heddlu. Efallai mai Heddlu rhan-amser Gwirfoddol a Gwirfoddolwyr Cefnogi'r Heddlu yn arbennig yw'r ddolen goll rhwng cymunedau a'r Heddlu. Gellid cyflawni'r math hwn o newid drwy lwybrau gwirfoddoli, gan gryfhau diogelwch pobl LHDTC+ a'u cydberthynas â gorfodi'r gyfraith.

Ar Gam Gweithredu 23 - bydd angen arweiniad ar fudiadau o fewn y sectorau chwaraeon a diwylliant ar wella'r gynrychiolaeth o bobl LHDTC+, a dylent gael eu cynnwys wrth gyd-gynhyrchu unrhyw ddatblygiadau strategol.

Ar Gam Gweithredu 26 – ‘Bydd sefydliadau cenedlaethol, lleol a gwirfoddol yn gweithio'n gydlynol i ddatblygu arferion da y gellir eu rhannu'n gyflym a'u defnyddio yn ehangach fel y bo'n briodol’. Rydym yn croesawu hyn, ond mae angen i'r sector wybod sut y bydd yn cael ei hwyluso a'i sicrhau, a sut bydd mudiadau yn rhan o'r broses hon. Mae'n bosibl y bydd angen darparu cyllid.

Camau gweithredu ychwanegol posibl:

- Mae Chwaraeon Anabledd Cymru wedi awgrymu i CGGC y dylai'r Cynllun rhoi mwy o ystyriaeth i 'hamdden weithredol' fel rhan o weithgarwch corfforol. Byddai hyn yn eistedd y tu allan i faes chwaraeon a mwy o fewn y maes iechyd cyhoeddus. Gellid cael

sgyrsiau â Pride Cymru ynghylch ei raglen Ewch Allan, Byddwch Actif.

- Dylai gwella gofal iechyd pobl drawsryweddol o dan 18 oed fod yn gam gweithredu. Gall amserau aros i weld gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol fod yn eithriadol o hir, ac mae'r ffaith nad oes gennym ni Wasanaeth Datblygu Hunaniaeth Rhywedd (GIDS) yng Nghymru yn golygu bod angen i gleifion deithio i Leeds neu Lundain.
- Dylai'r cynllun osod protocolau clir ar gyfer mynd i'r afael ag unrhyw ymosodedd ac iaith casineb y gallai pobl LHDTTC+ eu dioddef wrth ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus.
- Mae nifer o argymhellion ynghylch hyfforddiant proffesiynol staff addysgu a gwaith gyda cholegau a phrifysgolion. Mae cyfle yma i adeiladu addysgu a chymorth gwirfoddol rhwng ieuenctid, ac i wirfoddoli ieuenctid gyfannu cyflawniad y camau gweithredu o dan yr adran addysg. Gweler yr [astudiaeth achos](#) hon (Saesneg yn unig) am enghraifft o sut y gellid cyflawni hyn.
- Mae CGGC yn croesawu'r ffaith bod gwirfoddoli wedi'i gynnwys fel elfen allweddol o adeiladu cymuned a'r ystyriaeth a roddwyd i ganolbwyntio'n fwy ar gydraddoldeb, ynghyd â gweithio'n gydweithredol gyda'r sector gwirfoddol i gyflawni amcanion y cynllun gweithredu. Fodd bynnag, mae ymchwil gan NCVO wedi amlygu bod rhai gwirfoddolwyr LHDTTC+, yn enwedig y rheini a oedd gartref nad ydynt wedi 'dod allan', wedi teimlo eu bod wedi colli eu 'man diogel' i wirfoddoli yn ystod y pandemig oherwydd y cyfleoedd cyfyngedig i wirfoddoli wyneb yn wyneb. Dylid ychwanegu cam gweithredu i asesu a monitro effeithiau ac ôl-effeithiau Covid ar wirfoddoli ymhlith pobl LHDTTC+ a gallu unigolion LHDTTC+ i gysylltu fel cymuned yn y modd hwnnw; a hefyd i roi cymorth yn ôl yr angen i adfer y sector a'r mannau diogel sydd ar gael i unigolion LHDTTC+ gysylltu â'u cymheiriaid.

Rydym hefyd yn croesawu'r ymrwymiad i roi cyllid i gynorthwyo mudiadau i weithio tuag at nodau'r cynllun gweithredu. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r cyllid hwn fod yn hirdymor er mwyn rhoi'r siawns orau i'r Cynllun hwn lwyddo.

Cwestiwn 4

Beth yw'r prif heriau a allai atal y nodau a'r camau rhag cael eu cyflawni?

Gan ystyried ei fod yn agosach at gymunedau ac unigolion anodd eu cyrraedd nag unrhyw sector arall, mae gan y sector gwirfoddol rôl allweddol i'w chwarae mewn sicrhau bod y Cynllun yn llwyddiannus – ac mae'n rhaid i'r Cynllun egluro rôl y sector o ddarparu gwasanaethau. Bydd angen cymorth, hyfforddiant ac adnoddau ariannol ar y sector i:

- Sicrhau bod gwirfoddolwyr a staff yn deall nodau a chamau gweithredu'r Cynllun
- Sicrhau bod gwirfoddolwyr a staff yn deall y problemau sy'n wynebu'r gymuned LHDTC+
- Sicrhau bod gan fudiadau'r gallu i fwrw ati â'r camau gweithredu
- Sicrhau nad yw'n gweithio gydag unrhyw fudiadau sydd yn erbyn pobl LHDTC+
- Sicrhau nad yw mudiadau LHDTC+ yn cael eu heithrio mewn trafodaethau ynghylch materion trawsbynciol sy'n effeithio ar yr holl sector
- Sicrhau bod polisiau cydraddoldeb mudiadau yn gyfredol ac yn cael eu dilyn

Os caiff ei gynorthwyo'n llwyddiannus, mae'r Cynllun yn cynnig nifer o gyfleoedd i'r sector:

- Annog mwy o bobl LHDTC+ i wirfoddoli
- Sicrhau bod gwirfoddoli yn fan diogel i bawb
- Cymryd rhan mewn cyllid sy'n ymwneud â gwirfoddolwyr LHDTC+
- Helpu'r gymdeithas ehangach i ddeall bod yn rhaid clywed lleisiau pawb a bod gan bob unigolyn gyfraniad i'w wneud
- Sicrhau bod gan bobl LHDTC+ fynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt
- Dangos bod Cymru yn genedl amrywiol a chroesawgar

Fodd bynnag, ailadroddwn yma fod yn rhaid i'r Cynllun gynnwys amserlenni a chanlyniadau mesuradwy os yw am lwyddo.

Cwestiwn 5

Pa adnoddau (gallai hyn gynnwys cyllid, amser staff, hyfforddiant, mynediad at wasanaethau cymorth neu wasanaethau eiriolaeth ymhlith pethau eraill) a fydd yn angenrheidiol yn eich barn chi wrth gyflawni'r nodau a'r camau gweithredu a amlinellir?

Trafodwyd hyn ynghynt yn ein hateb i Gwestiwn 4. Ond yn ychwanegol at hyn, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru a'r sector sicrhau eu bod yn nodi safbwyntiau a phrofiadau byw'r gymuned LHDTC+. Roedd rhaglen Mesur y Mynydd, i ddarganfod straeon pobl am gael gafael ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a sut mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant wedi'i rhoi ar waith, yn llwyddiannus. Efallai, unwaith y bydd y Cynllun wedi'i roi ar waith, gellid ystyried rhaglen debyg er mwyn deall profiadau pobl LHDTC+. Gellid hefyd sefydlu rhywbeth i olrhain llwyddiant y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol.

Gellid ystyried llunio Cod Arferion Gorau ar gyfer gweithio gyda chymunedau LHDTC+.

Cwestiwn 6

A ydych chi'n teimlo bod y Cynllun Gweithredu LHDTC+ yn ymdrin yn ddigonol â chroestoriadedd LHDTC+ â nodweddion gwarchoddedig eraill, megis hil, crefydd neu gred, anabledd, oedran, rhywedd, a phriodas a phartneriaeth sifil? Os nad ydych yn teimlo ei fod yn gwneud hynny, sut y gallwn wella hyn?

Mae'n rhaid i'r Cynllun sicrhau nad yw'n rhannu unigolion a chymunedau i mewn i adrannau. Mae gan lawer o bobl liaws o wahanol nodweddion gwarchoddedig ac mae'n rhaid i'r Cynllun wneud yn siŵr bod hyn yn cael ei ddeall ar bob lefel o'r llywodraeth, yn ogystal ag ar draws adrannau. Byddai

trafodaethau â grŵp sy'n cynrychioli nodweddion gwarchoddedig eraill yn helpu i lunio'r Cynllun ymhellach fel rhywbeth a allai fod yn llwyddiannus.

Gallai'r Cynllun Gweithredu ystyried sut i leihau proffilio hiliol o fewn cymunedau LHDTTC+, gan ystyried ymgyrch Mae Bywydau Du o Bwys.

Cwestiwn 7

Hoffem gael eich barn ar unrhyw effeithiau y byddai'r cynigion hyn yn eu cael ar y Gymraeg, yn enwedig ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau negyddol?

Mae cyfle i addysgu terminoleg LHDTTC+ yn well yn Gymraeg.

Cwestiwn 8

Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gallai'r dull polisi arfaethedig gael ei lunio neu ei newid er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac er mwn sicrhau na fydd effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae'n rhaid cynnig gwasanaethau cyhoeddus yn Gymraeg, ni ddylai'r Cynllun gael unrhyw effaith negyddol ar y defnydd o'r Gymraeg.

Cwestiwn 9

Datblygwyd y cynllun hwn ar y cyd, ac mae trafodaethau ynghylch iaith a hunaniaeth wedi dangos y dylid defnyddio'r acronym LHDTc+. Mae hyn yn sefyll am bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsrywiol a chwiar/cwestiynu, gyda'r + yn cynrychioli hunaniaethau rhywiol eraill. O ganlyniad, rydym yn cyfeirio at bobl LHDTc+ yn y Cynllun.

Beth yw eich barn am y term hwn ac a oes dewis amgen y byddai'n well gennych? Efallai y bydd siaradwyr Cymraeg am ystyried terminoleg addas yn y ddwy iaith.

Mae CGGC yn credu bod LHDTc+ yn cael ei ddefnyddio'n aml ac nad oes angen terminoleg amgen. Fodd bynnag, dylid gwneud mwy o waith ar sicrhau ei fod yn glir fod cymunedau hoyw a thraws yn cael eu cynnwys yn y derminoleg hon. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru fod yn eglur ynghylch ystyr LHDTc+ ar bob adeg, er mwyn helpu i sicrhau bod pobl yn cydnabod nad yw 'LHDTc+' yn golygu 'hoyw' yn unig. Dylai hefyd annog ei phartneriaid i wneud yr un peth. Bydd y gwaith hwn yn helpu i sicrhau bod gan y cyhoedd ddealltwriaeth lawn o'r term 'LHDTc+'.

Cwestiwn 10

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi ymdrin yn benodol â nhw, gallwch eu nodi isod:

Mae Panel Arbenigol yn cael ei nodi drwyddi draw yn y cynllun gweithredu fel ffynhonnell llawer o argymhellion. Dywed Llywodraeth Cymru hefyd fod ymgynghoriadau ar wahân wedi'u cynnal â mudiadau fel TUC Cymru, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru (WEN), a Llinell Gymorth LHDT Cymru. Mae CGGC yn credu y dylid fod wedi ymgynghori â nhw hefyd ar y cam hwn. Mae'r sector gwirfoddol, fel y nodwyd ynghynt, yn gweithio'n agos iawn gyda chymunedau ac unigolion anodd eu cyrraedd, a gellid fod wedi defnyddio Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector (TSPC) i gasglu a bwydo'n ôl gwybodaeth a allai fod wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr i'r Cynllun Gweithredu. Mae peidio â chynnwys CGGC a'r TSPC yn mynd yn groes i'r cyfeiriad at 'yr angen am well cydlyniant strategol ar faterion LHDTc+' y cyfeirir ato o fewn y Cynllun.

Rydym yn credu y dylai'r Panel Arbenigol gynnwys rhywun sy'n cynrychioli LHDTC+ a gwirfoddoli, os nad yw eisoes yn gwneud hyn.

Hoffai CGGC ddiolch i'r unigolion a'r mudiadau hynny sydd wedi cyfrannu at yr ymateb hwn, gan gynnwys Ymddiriedolaethau Natur Cymru, SNAP Cymru, Chwaraeon Anabledd Cymru, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin, Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg, Stonewall Cymru, Diverse Cymru a Chytun.

Mae CGGC, ochr yn ochr â llawer o fudiadau amlwg eraill ledled Cymru, wedi cyd-lofnodi datganiad, sydd eisoes wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae'n nodi: 'Rydym yn cefnogi cynnwys pobl anueuaidd o fewn darpariaethau'r Cynllun Gweithredu LHDTC+. Rydym yn cefnogi hawliau menywod a hawliau traws ac nid ydym yn credu bod unrhyw wrthddywediad cynhenid rhyngddynt.' Yn ystod ein proses ymgysylltu ynghylch yr ymgynghoriad hwn, gwnaethom dderbyn dyrnaid o safbwyntiau a oedd yn gwbl groes i'r datganiad hwn. Rydym yn cydnabod y cyfraniadau hyn, ond nid ydym wedi eu defnyddio yn y ddogfen hon.

Mae CGGC yn fwy na bodlon trafod y rhain ac unrhyw bwyntiau perthnasol eraill gyda Gweinidogion, swyddogion neu Bwyllgorau yn ôl y gofyn.

Enw

David Cook

Mudiad (os yw'n berthnasol)

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Cyfeiriad e-bost

dcook@wcva.cymru

Gallai ymatebion i ymgynghoriadau gael eu cyhoeddi'n gyhoeddus. Os hoffech i'ch ymateb aros yn ddiennw (gan gynnwys cyfeiriadau e-bost) ticiwch y bocs.

